

OWEN, Syr HUGH (1804 - 1881), cymwynaswr addysg Cymru

Enw: Hugh Owen

Dyddiad geni: 1804

Dyddiad marw: 1881

Priod: Ann Owen (née Wade)

Plentyn: Hugh Owen

Rhiant: Mary Owen (née Jones)

Rhiant: Owen Owen

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: cymwynaswr addysg Cymru

Maes gweithgaredd: Addysg

Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd 14 Ionawr 1804 yn y Foel, Llangeinwen, sir Fôn, mab hynaf Owen Owen a Mary ei wraig (merch Owen Jones). Bu dan addysg yn ysgol [Evan Richardson](#), ac ar ôl treulio ychydig amser gartref aeth i Lundain, Mawrth 1825, a bu'n gweithio fel clerf cyfreithwyr nes iddo dderbyn swydd, 22 Chwefror 1836, fel clerf yng Nghomisiwn Deddf y Tlodion. Daeth yn brif glerc yno yn 1853, a pharhau yn y swydd pan gymerwyd gwaith y Comisiwn drosodd gan y Bwrdd Llywodraeth Leol.

Ym myd addysg Cymru y gorwedd ei brif waith. Ar 26 Awst 1843 ysgrifennodd lythyr at bobl Cymru ar ysgolion dydd. Fis Tachwedd 1843 cafodd benodi dirprwywr dros Ogledd Cymru i Gymdeithas yr Ysgolion Brutanaidd a Thramor, ac yn ddiweddarach un arall dros y De. Yn Awst 1846 daeth yn ysgrifennydd mygedol y 'Cambrian Educational Society'; ar 17 Mawrth 1847, cyhoeddodd lythyr arall i'r Cymry yn dadlau dros ysgolion Brutanaidd i Gymru. Yn 1856 yr oedd yn un o brif hyrwyddwyr y mudiad a sicrhodd sefydlu'r Coleg Normal ym Mangor, ac yn ddiweddarach yr oedd a wnelai ef â sefydlu coleg cyffelyb i ferched yn Abertawe. Yn 1879 paratodd gynllun i alluogi bechgyn addawol a oedd mewn ysgolion elfennol yn y Gogledd i gael ychwaneg o addysg; canlyniad hyn oedd sefydlu Cymdeithas Ysgoloriaethau Gogledd Cymru, a gwnaeth hon waith gwerthfawr iawn hyd 1894, pryd y daeth i ben.

Ond cofir am Hugh Owen yn bennaf ar sail ei waith dros Goleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth. Soniodd am y breuddwyd yn gyntaf mewn cyfarfod yn Llundain, Ebrill 1854; a phan godwyd pwyllgor yn Llundain yn 1863, daeth yn un o'r ysgrifenyddion mygedol. Bu ar y blaen yn y trafodaethau a arweiniodd i benodi [T. C. Edwards](#) yn brifathro, a phan ymddeolodd o'i swydd yn Llundain rhoddes ei amser a'i egni er hyrwyddo buddiannau'r coleg. Teithiodd drwy Gymru benbaladr, gan annerch lluo o gyfarfodydd, a llwyddodd i ddwyn y coleg a'i anghenion yn fyw o flaen llygaid y Cymry gartref ac ar wasgar.

Hugh Owen oedd yn gyfrifol, i raddau mawr, am gael penodi pwyllgor adrannol yn 1880 i chwilio i gyflwr addysg ganolradd ac uwchradd yng Nghymru a Mynwy, a dengys y dystiolaeth a gyflwynwyd ganddo i'r pwyllgor gymaint a wnaeth dros Goleg Aberystwyth; ceir hefyd ddarlun clir o'i syniadau parthed datblygu addysg ganolradd yng Nghymru.

Yr oedd ganddo hefyd ddiddordeb yn yr eisteddfod genedlaethol ac Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, a bu'n foddion i sicrhau diwygio'r ddwy. Bu'n wiu ganddo ofalu am fuddiannau'r Cymry yn Llundain, ac yng Ngorffennaf 1873 yr oedd yn un o sylfaenwyr y 'London Welsh Charitable Aid Society.' Urddwyd ef yn farchog, Awst 1881, ond bu farw yn Mentone, Ffrainc, 20 Tachwedd, a'i gladdu ym mynwent Abney Park, Llundain. Priododd ag Ann Wade, a daeth ei fab hynaf, Syr Hugh Owen, K.C.B., yn ysgrifennydd parhaol y Bwrdd Llywodraeth Leol.

Mae iddo gofgolofn ar y Maes yng Nghaernarfon.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

The College by the Sea (1928), 1928

W. E. Davies, *Sir Hugh Owen his life and life-work being the essay to which the prize was offered at the National Eisteddfod 1884* (Llundain 1885)

W. C. Davies a W. L. Jones, *The History of the University of Wales*

adroddiad Pwyllgor Arglwydd Aberdâr, 1881, ynghyd â thystiolaeth Hugh Owen ger ei fron

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Hugh Owen](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [11097547](#)

Wikidata: [Q5932209](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

